Archwilio Cymru
Audit Wales

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2026



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | 2 |
| Rhagair | 4 |
| Cipolwg ar eich archwiliad | 6 |
| Canfyddiadau'r archwiliad o'r cyfrifon | 8 |
| Canfyddiadau gwaith archwilio perfformiad | 10 |
| Ansawdd archwilio | 16 |
| Rhagor o wybodaeth | 17 |

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru a staff Swyddfa Archwilio Cymru'n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon neu ei defnyddio mewn unrhyw ffordd arall gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu anfonwch neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Rhagair



**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'n dda gennyf rannu fy Nghrynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd). Mae'n crynhoi prif ganfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2025 a wnaed i gyflawni fy nghyfrifoldebau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Darperais farn pa un a oedd y cyfrifon wedi'u paratoi'n briodol ac yn rhoi darlun cywir a theg, ym mhob agwedd berthnasol, a pha un a yw gwariant ac incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eich llywodraethu.

Mae fy nhîm archwilio hefyd wedi asesu a yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran sut y mae'n defnyddio adnoddau, ac wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny, mae fy nhîm archwilio wedi gwneud fy ngwaith asesu strwythuredig blynyddol ac wedi adolygu gwasanaethau gofal a gynlluniwyd, gwasanaethau gofal llygaid, gwasanaethau gofal brys ac argyfwng, a threfniadau llywodraethu ansawdd. Fel a nodwyd yn fy nghynllun archwilio, fe gynhaliwyd yr adolygiadau hyn yn unol â safonau Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

Ar adeg cyhoeddi'r crynodeb hwn, roedd y Bwrdd Iechyd wedi'i uwchgyfeirio i Lefel 4 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio dan drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd Llywodraeth Cymru. Roedd hefyd wedi'i uwchgyfeirio i Lefel 4 ar gyfer perfformiad a deilliannau sy'n gysylltiedig â Gofal Brys ac Argyfwng.

Caiff y canfyddiadau archwilio manwl ar gyfer pob un o'm hadolygiadau eu nodi yn y priod adroddiadau y mae fy nhîm archwilio wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg trwy gydol y flwyddyn. Mae'r adroddiadau archwilio perfformiad ar gael ar wefan Archwilio Cymru ac mae dolenni pellach ar gael yn y crynodeb.

Dylid rhannu'r Crynodeb Archwilio Blynyddol gyda'r Bwrdd. Byddaf innau wedyn yn trefnu bod crynodeb ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru.

Hoffwn estyn fy niolchgarwch i staff y Bwrdd Iechyd am eu help a'u cydweithrediad trwy gydol fy archwiliad.

# Cipolwg ar eich archwiliad

Cefais y cyfrifon drafft yn unol â’r terfyn amser statudol, sef 2 Mai 2025. Roedd ansawdd y cyfrifon drafft a’r papurau gwaith yn dda.

Cyn y terfyn amser statudol, sef 30 Mehefin 2025, cyhoeddais farn ddiamod ynglŷn â chywirdeb a thegwch, a barn amodol ynglŷn â rheoleidd-dra. Cyhoeddais adroddiad o sylwedd ar y cyfrifon hefyd.

Nid oedd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd yn y cyfrifon. Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol eraill i’w nodi.

Canfu fy ngwaith archwilio perfformiad fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu da, a bod y Bwrdd yn gwrando’n dda ar gleifion a defnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, er bod goruchwyliaeth ariannol yn gryf a bod gan y Bwrdd Iechyd hanes da o gyflawni arbedion, mae ei sefyllfa ariannol yn dal i beri pryder. Rhaid i’r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio ar gyflawni ei strategaeth fel modd i drawsnewid gwasanaethau a chreu gwasanaethau sy’n ariannol gynaliadwy.

Mae’r Bwrdd Iechyd yn lleihau rhai o’i arosiadau hwyaf am lawdriniaethau dewisol ond mae rhagor i’w wneud, gan gynnwys lleihau’r arosiadau hwyaf ym maes offthalmoleg. Mae gwasanaethau gofal brys ac argyfwng wedi cael eu haddasu i ateb y galw yn well, gyda hynny’n cael ei ategu gan gynlluniau a goruchwylio cryf.

Fe gyflwynodd fy nhîm archwilio nifer o argymhellion i'r Bwrdd Iechyd sy'n canolbwyntio ar gryfhau trefniadau cynllunio gwasanaethau, rheolaeth ar wasanaethau a chymorth i'w trawsnewid, gan wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant gweithredol i wella gofal cleifion a chynaliadwyedd y system.

Mae peth gwaith yn dal heb ei gwblhau o'm Cynllun Archwilio dyddiedig Ebrill 2025. Mae fy nhîm yn disgwyl cwblhau'r mwyafrif o'r gwaith hwn erbyn mis Mawrth 2026.

# Canfyddiadau'r archwiliad o'r cyfrifon

Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth ar arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion, a'i lifoedd arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny'n darparu barn pa un a gafodd y cyfrifon eu paratoi'n briodol ac a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg, ym hob agwedd berthnasol, ac ynglŷn â defnydd priodol o arian cyhoeddus ('rheoleidd-dra').

Caiff fy nghyfrifoldebau o ran archwilio'r cyfrifon eu disgrifio yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

Cyflwynwyd y cyfrifon drafft i'w harchwilio ar 2 Mai 2025. Roedd hyn yn unol â'r terfyn amser, sef 2 Mai 2025, a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd ansawdd y cyfrifon drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio'n dda.

## Fy marn archwilio

Rhaid i mi adrodd ar faterion sy'n codi o'm gwaith wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu er mwyn iddynt eu hystyried cyn fy mod yn cyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddais ar y materion hyn yn fy Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon wrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd risg a'r Bwrdd ar 24 a 25 Mehefin 2025 yn y drefn honno.

**Cywir a theg**

Fe wnaed nifer fach o newidiadau i'r cyfrifon drafft a gododd o'm gwaith archwilio. Nid oedd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd ac nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol eraill i'w nodi.

Nid adnabu fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad). Fodd bynnag, rwyf wedi gwneud argymhellion lle ceir cyfle i wella papurau gwaith a rheolaethau ymhellach. Adroddwyd ar y rhain wrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Hydref 2025.

Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir ac fe gyhoeddais farn archwilio ddiamod arnynt.

**Rheoleidd-dra**

Nid yw'r Bwrdd Iechyd ond yn cael derbyn incwm ac ysgwyddo gwariant mewn ffyrdd sy'n dilyn y rheolau a bennwyd gan yr awdurdodau sy'n ei lywodraethu. Lle nad yw Bwrdd Iechyd yn mantoli'r cyfrifon ariannol, mae ei wariant yn mynd y tu hwnt i'w bwerau i wario ac felly rhaid i mi amodi fy marn ynglŷn â rheoleidd-dra.

Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd fantoli'r cyfrifon ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, sydd y tu hwnt i'w bwerau i wario yn fy nhyb i, felly rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ynglŷn â rheoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-25. Roedd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn ddiffyg o £7.185 miliwn o'i gymharu â tharged i adennill costau gan Lywodraeth Cymru. Ar y cyd â'r alldroeon ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol, fe gyfrannodd hyn at ddiffyg dros dair blynedd o £93.793 miliwn.

Ochr yn ochr â'm barn archwilio, gosodais adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd i amlygu'r methiant i fantoli'r cyfrifon ariannol a'r methiant i fod â chynllun tair blynedd cymeradwy.

## Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan

Cynhaliais adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan hefyd. Deuthum i'r casgliad fod yr wybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2025 a bod y ffurflen wedi cael ei pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

# Canfyddiadau gwaith archwilio perfformiad

## Asesiad strwythuredig

Fe wnaeth fy nhîm ystyried pa mor dda y mae'r Bwrdd Iechyd yn cael ei lywodraethu ac a yw'n defnyddio ei adnoddau yn y ffordd orau.

Canfûm fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu da a bod gwybodaeth o ansawdd da'n cael ei darparu i ategu gweithgarwch craffu. Ceir ymrwymiad parhaus o hyd i glywed gan gleifion a defnyddwyr gwasanaethau, ond fe allai'r Bwrdd Iechyd wneud rhagor i glywed gan staff.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella sut y mae'n rheoli risgiau ac mae wrthi'n cwblhau ei gofrestr risgiau corfforaethol. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rhesymol i ddarparu sicrwydd ynghylch risgiau a pherfformiad, ond mae angen iddo gryfhau ei sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch gofal.

Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth hirdymor newydd ac eglur. Mae hefyd wedi cryfhau ei ddull o gynllunio dros y tymor canolig, er fy mod yn nodi, ers i mi gyhoeddi'r adroddiad ar fy asesiad strwythuredig, fod sefyllfa ariannol ddirywiol wedi arwain yn ddiweddarach at dynnu'r gymeradwyaeth i'r CTCI yn ôl gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2025.

Er bod goruchwyliaeth ariannol yn gryf a bod gan y Bwrdd Iechyd hanes da o gyflawni arbedion, mae ei sefyllfa ariannol yn gwaethygu, ac yntau'n rhagweld diffyg ar ddiwedd y flwyddyn 2025-26 o £19.9 miliwn. Eleni, mae £28.3 miliwn o'i £42.5 miliwn o arbedion wedi'u cynllunio yn rhai cylchol.

Fe wnes i chwe argymhelliad a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- cyflwyno adroddiadau ar gydymffurfio lle mae datganiadau o fuddiant yn y cwestiwn;
- gwneud mwy o ddefnydd o storïau staff yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau;
- adrodd yn ffurfiol ar gynnydd gyda chamau gweithredu yn dilyn teithiau o amgylch gan arweinwyr i fwrw golwg ar ddiogelwch cleifion;

- ailddatblygu ei adroddiad ar y Fframwaith Deilliannau Ansawdd i amlygu materion yn well a darparu sicrwydd;
- gwella goruchwyliaeth ar weithgarwch archwilio clinigol lleol a bennir trwy asesiad seiliedig-ar-risg; a
- thracio argymhellion gan gyrff eraill gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi'r 12 argymhelliad a oedd yn weddill ers fy adroddiad asesu strwythuredig diwethaf ar waith yn llawn. Mae dau argymhelliad yn dal i fod ar y gweill, mae tri heb ddechrau eto, ac mae un wedi cael ei ddisodli gan argymhelliad newydd a wnaed eleni.

## Rheoli gofal a gynlluniwyd

Fe wnaeth fy nhîm ystyried y cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud i ymdrin â'i heriau o ran gofal a gynlluniwyd a lleihau'r ôl-groniad ar ei restrau aros.

Canfûm fod y Bwrdd Iechyd, gyda chymorth cyllid byrdymor ychwanegol, wedi gwneud cynnydd da o ran lleihau'r arosiadau hwyaf. Fodd bynnag, mae nifer cyffredinol y cleifion sy'n aros yn dal i fod yn uchel, gyda'r mwyafrif o dargedau cenedlaethol yn peidio â chael eu cyrraedd, yn enwedig y rhai sy'n aros am eu hapwyntiad cyntaf fel cleifion allanol. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd geisio cyfleoedd i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd. Mae angen iddo hefyd gyflymu gwaith i gyflwyno trefniadau i gefnogi cleifion sy'n aros a gwella sut y mae'n adrodd ar niwed sy'n deillio o oedi cyn rhoi gofal a gynlluniwyd.

Fe wnes i bum argymhelliad a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- datblygu cynllun gwella manwl ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd;
- cryfhau ei adroddiadau ar ddefnyddio ac effaith y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gofal a gynlluniwyd;
- cyfleoedd ar gyfer gwelliannau pellach i effeithlonrwydd a chynhyrchiant;

- sefydlu canolfan gyswllt dan y polisi Hyrwyddo, Atal a Pharatoi ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd[1] a chyflwyno'r gwasanaeth i bob arbenigedd; a
- rheoli risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag arosiadau hir, gan gynnwys datblygu methodolegau cyson ac adroddiadau rheolaidd.

## Adolygiad Gofal Llygaid

Fe wnaeth fy nhîm ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol i wella gwasanaethau gofal llygaid. Fe wnaeth fy nhîm adolygu trefniadau lleol a rhanbarthol.

Canfûm fod y strategaeth gofal llygaid ranbarthol yn pennu cyfeiriad cadarnhaol, ond mai araf fu'r cynnydd. Mae trefniadau llywodraethu yn eu lle i oruchwylio cyflawni rhanbarthol, ond mae prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn ag achosion busnes yn gallu bod yn araf a thrwsgl, gan gynnwys nifer o grwpiau ar draws y tri bwrdd iechyd. Mae'n werth nodi bod gweithio rhanbarthol wedi symud i ffwrdd oddi wrth ei uchelgais gwreiddiol i ddatblygu gwasanaethau arbenigol yn fwy eang, gan ganolbwyntio yn hytrach ar greu capasiti byrdymor mewn gwasanaethau ar gyfer triniaethau cataractau. Er bod y dull rhanbarthol ar gyfer cataractau yn amcanu at leihau arosiadau hir, hyd yma nid yw wedi effeithio'n sylweddol ar nifer cyffredinol y cleifion sy'n aros am driniaeth.

Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gallu lleihau ei arosiadau hwyaf ar gyfer offthalmoleg, nid yw wedi cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer gofal a gynlluniwyd. Mae perfformiad yn erbyn y 'mesur gofal llygaid' yn wael ac, o ganlyniad, mae'n debygol bod rhai cleifion yn dioddef niwed y gellid ei osgoi.

[1] Hyrwyddo, Atal a Pharatoi ar gyfer gofal a gynlluniwyd. Roedd hi'n ofynnol cyflawni Cam 1 erbyn mis Mawrth 2024. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu un pwynt cyswllt i bobl gael mynediad at wybodaeth a chymorth yn dilyn atgyfeiriad at ofal eilaidd arbenigol.

Yng nghyd-destun yr heriau hyn, mae angen cryfhau'r modd y mae gwasanaethau gofal llygaid yn cael eu cynllunio'n lleol, ehangu cwmpas gweithio rhanbarthol, sicrhau enillion pellach o ran cynhyrchiant ac effeithlonrwydd, a chryfhau goruchwyliaeth ar wasanaethau offthalmoleg gan y Bwrdd a phwyllgorau.

Fe wnes i saith argymhelliad a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- bod partneriaid rhanbarthol yn cyflymu prosesau penderfynu ar gyfer cytuno ar achosion busnes;
- bod partneriaid rhanbarthol yn datblygu cynllun adnoddau i gael dealltwriaeth well am yr ymrwymiad gweithredol a chlinigol y mae ei angen ar gyfer pob sefydliad partner;
- bod partneriaid rhanbarthol yn cytuno ar raddfeydd amser sy'n realistig ond yn cynnwys uchelgais priodol ar gyfer tri cham Strategaeth Offthalmoleg Ranbarthol De Ddwyrain Cymru;
- mynd ati ar frys i gwblhau datblygiad ei gynllun gofal llygaid gan geisio ymdrin â heriau yn y presennol a'r dyfodol;
- bod diweddariadau ddwywaith y flwyddyn yn cael eu darparu ar gyfer y pwyllgor priodol ar gyflawni'r cynllun, unwaith y bydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd;
- adolygu cofrestrau risgiau gweithredol a strategol; a
- bod y Pwyllgor Deilliannau Cleifion, Ansawdd a Diogelwch yn cael sicrwydd ynghylch sut y mae'r risg o niwed i gleifion offthalmoleg yn cael ei rheoli, gwersi a ddysgwyd o adolygiadau a'r niwed gwirioneddol a achosir gan oedi wrth aros.

## Rheoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng

Fe wnaeth fy nhîm ystyried pa mor dda y mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli'r galw am ofal brys ac argyfwng i leihau pwysau diangen ar y system.

Canfûm fod y Bwrdd Iechyd yn addasu ei wasanaethau gofal brys ac argyfwng i ateb y galw yn well, gyda hyn yn cael ei ategu gan gynlluniau a goruchwylio cryf. Fodd bynnag, er bod newidiadau'n arwain at welliannau mewn rhai meysydd, mae angen gwneud defnydd gwell o ddewisiadau eraill yn lle ei Adran Argyfwng ac ymgysylltu'n gryfach â chleifion a staff i oleuo cynlluniau.

Fe wnes i 10 argymhelliad a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- cryfhau'r modd y rheolir risgiau mewn cynlluniau;
- trefniadau cyllido ar gyfer y Rhaglen Chwe Nod y tu hwnt i fis Mawrth 2025;
- cyfeirio at wasanaethau gofal brys ac argyfwng ar wefannau practisau meddygon teulu a deintyddol;
- adolygu'r broses cyfathrebu ac atgyfeirio rhwng gofal eilaidd a meddygon teulu;
- sicrhau bod Cyfeiriadur Gwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cael ei ddiweddaru'n gyson a sefydlu mecanwaith i rannu'r Cyfeiriadur gyda staff cymunedol a staff cartrefi gofal;
- gweithio gyda staff allweddol, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, i wella mynediad a'r modd y defnyddir atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau gofal brys ac argyfwng amgen priodol;
- defnyddio adborth cleifion i oleuo cynlluniau gofal brys ac argyfwng;
- mecanweithiau rheolaidd ar gyfer adborth gan staff ar newidiadau i wasanaethau, gan gynnwys partneriaid allweddol megis gofal sylfaenol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;
- cynrychiolaeth gofal sylfaenol ym Mwrdd Rhaglen Gwella Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng; a
- datblygu a chyfleu canllawiau i staff ar werthuso manteision gwariant ar brosiectau.

## Trefniadau Llywodraethu Ansawdd

Fe wnaeth fy nhîm ystyried a oedd y Bwrdd yn cael y sicrwydd angenrheidiol bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol i ymateb i'r gofynion ar Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Wrth wneud hynny, fe wnaeth fy nhîm hefyd ystyried y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i ymdrin â'r argymhellion archwilio ynghylch trefniadau llywodraethu ansawdd a wnaed gennyf yn 2022.

Canfûm fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd o ran rhoi'r argymhellion ynghylch llywodraethu ansawdd a wnaed yn 2022 ar waith ond bod ganddo lawer mwy i'w wneud o hyd i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol i'w drefniadau llywodraethu ansawdd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau rhesymol i roi'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd ar waith

ond mae angen iddo wella niferoedd y staff sy'n manteisio ar hyfforddiant ar y gofynion sy'n gysylltiedig â'r dyletswyddau hyn.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi pump o'r 16 o argymhellion o'm harchwiliad blaenorol ar waith yn llawn. Mae naw argymhelliad yn dal i fod ar y gweill ac mae dau heb gael eu rhoi ar waith. Fe wnes i bedwar argymhelliad newydd a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- gwella trefniadau i staff godi pryderon, gan gynnwys diweddaru ei weithdrefn a monitro effaith gwasanaethau cymorth allanol a mentrau achredu;
- cymeradwyo diweddariad neu adendwm i'r Polisi 'Gweithio i Wella' cyfredol i adlewyrchu'r strwythur sefydliadol cyfredol a'r gofynion o ran y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd;
- gwerthuso effaith canoli'r timau Ansawdd a Diogelwch Cleifion; a
- chryfhau trefniadau ar gyfer hyfforddiant e-ddysgu ar y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd, gan gynnwys cynyddu cyfraddau'r staff sy'n manteisio arnynt a monitro'r rhain ac adrodd arnynt.

## Gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo

Ar adeg llunio'r adroddiad, roedd yr adolygiadau canlynol o Gynllun Archwilio 2025 yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd:

- rheoli ystadau;
- trawsnewid digidol;
- trefniadau'r contract a reolir ar gyfer meddygon teulu; ac
- adolygiad o wasanaethau canser.

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru'n un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2024.



### Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwyliaeth ac adolygu



### Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Platfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technelogol



### Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

# Rhagor o wybodaeth

Mae gan Archwilio Cymru amrywiaeth o wybodaeth arall i roi cymorth i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i barhau i wella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl Cymru.

**Ewch at ein gwefan i ganfod:**

Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.

Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.

Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus.

Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arfer a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.

Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.